This document is also available in English

1. Gwybodaeth Ysgolion a Pholisi Derbyniadau 2025/2026

1.1 Swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy

Mae swyddfeydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy yn:
Coed Pella, Conwy Road, Colwyn Bay, LL29 7AZ

Dylid anfon ymholiadau ynghylch addysg gynradd, uwchradd ac arbennig at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN.

☎ 01492 575 031
✉ addysg@conwy.gov.uk 💻 www.conwy.gov.uk/addysg

Gellir cael mwy o gopïau o'r ddogfen hon o'r swyddfa uchod.

1.2 Diffiniadau

'Trefniadau derbyn'	Y drefn, ymarferion a meini prawf gordanysgrifio cyffredinol a ddefnyddir i benderfynu dyrannu lleoedd ysgol.
'Awdurdod Derbyn'	Y corff sy'n gyfrifol am osod a dilyn trefniadau derbyn ysgol. Ar gyfer ysgolion cymunedol a rheoledig gwirfoddol, CBS Conwy yw'r Awdurdod Derbyn; ac ar gyfer ysgolion sylfaen neu gymorthedig gwirfoddol, corff llywodraethol yr ysgol yw'r Awdurdod Derbyn.
'Rhif derbyn'	Nifer y lleoedd ysgol sy'n rhaid i'r Awdurdod Derbyn ei gynnig ym mhob grŵp oedran perthnasol yr ysgol.
'Cyrff llywodraethol'	Cyrff llywodraethol ysgolion sy'n gyfrifol am reoli ysgolion gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Mae cyrff llywodraethol ysgolion cymorthedig gwirfoddol a sylfaen yn Awdurdodau Derbyn ar gyfer eu hysgolion.
'Meini prawf gordanysgrifio'	Y rhestr o feini prawf sy'n rhaid i Awdurdod Derbyn eu mabwysiadu ar gyfer ei ysgolion sydd ond yn cael eu defnyddio pan fo ysgol wedi'i gordanysgrifio i asesu pa blant fydd yn cael cynnig lle.

DRAFT

1.3 Mathau o Ysgolion

O dan Restr 2 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 dosbarthwyd ysgolion i gategorïau newydd [Cymunedol, Gwirfoddol neu Sylfaenol] o fis Medi 1999.

Mae'r mwyafrif yr ysgolion sydd yng Nghonwy yn cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae rhai o'r ysgolion cynradd/babanod yn ysgolion Eglwys cymorthedig ac, o ganlyniad, mae ganddynt gysylltiad â chyrff enwadol. Mae pob ysgol uwchradd yn gwbl gyfun ac yn darparu ar gyfer disgyblion/myfyrwyr 11-18 oed. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal Ysgolion Cyfrwng y Gymraeg dynodedig ble mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysg. Hefyd mae nifer o ysgolion ble mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng wrth gyfathrebu a rhoi cyfarwyddiadau. Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn.

1.3.1 Ysgolion Cymunedol

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ('Awdurdod Derbyn') yw derbyn i'r ysgolion hyn ac mae'r plant yn cael eu derbyn yn ôl Polisi Derbyn Gwasanaethau Addysg CBS Conwy.

1.3.2 Ysgolion Rheoledig Gwirfoddol

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Betws yn Rhos	Ysgol Porth y Felin
Ysgol Eglwysbach	Ysgol Llangelynnin
Ysgol Llanddoged	Ysgol Llanddulas
Ysgol Babanod Llanfairfechan	Ysgol Pencae
Ysgol San Siôr	Ysgol Ysbyty Ifan

Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n cael ei adnabod hefyd fel yr 'Awdurdod Derbyn') yw derbyn i'r ysgolion hyn. Mae polisïau derbyn yr ysgolion hyn yr un fath â pholisïau ysgolion cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

1.3.3 Ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol

Mae ysgolion Cymorthedig Gwirfoddol yn cael eu cynnal ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac un ai'r Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig.

(a) **Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru**

Ysgol Bodafon, Ysgol San Siôr, Ysgol y Plas

Y Llywodraethwyr yw'r Awdurdod Derbyn i'r ysgolion hyn. Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw ddisgybl gan Bennaeth yr ysgol berthnasol.

Dylai unrhyw apeliadau derbyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig at: Gadeirydd y Llywodraethwyr, yn yr ysgol berthnasol.

DRAFT

(b) **Ysgolion yr Eglwys Gatholig**

Ysgol y Bendigaid William Davies, Ysgol Sant Joseff

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw derbyn plant i'r ysgolion hyn. Y prif feini prawf ar gyfer derbyn yw aelodaeth ac ymroddiad i'r ffydd Gatholig, er y gall disgyblion eraill nad ydynt yn Gatholigion ac sydd eisiau cael addysg ffydd, gael eu derbyn. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu derbyn yn unol â pholisi'r esgobaeth sy'n cymryd i ystyriaeth ddymuniadau'r rhieni i gael amgylchedd addysgol enwadol ar gyfer eu plant, anghenion plant gwael eu hiechyd neu blant sydd ag anawsterau corfforol neu ddysgu ac anghenion plant sy'n perthyn i leiafrif (e.e. ethnig).

Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw ddisgybl gan Bennaeth yr ysgol berthnasol.

Dylai unrhyw apeliadau derbyn gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig at: Gadeirydd y Llywodraethwyr yn yr ysgol berthnasol.

1.3.4 **Ysgolion Sylfaen**

Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Eirias, Ysgol Bryn Elian ac Ysgol Emrys ap Iwan

Y Corff Llywodraethol yw'r Awdurdod Derbyniadau i'r ysgolion hyn. Derbynnir plant yn unol â pholisi pob ysgol. Gellir cael gwybodaeth bellach ar dderbyn unrhyw blentyn gan bennaeth yr ysgol berthnasol.

Ystyrir unrhyw apêl yn erbyn gwrthod derbyn gan banel apêl annibynnol o dan drefniadau a wnaed gan Gorff Llywodraethol pob ysgol yn unol ag Adran 94 a 95 Deddf 1998 ac Atodlenni 24 a 25.

1.3.5 **Ysgol Arbennig**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal un ysgol arbennig, sef Ysgol y Gogarth, Llandudno, sy'n darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth na ellir eu bodloni mewn ysgol brif ffrwd gydag adnoddau. Mae lle yn yr ysgol yn cael ei benderfynu gan Banel Cymedroli Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y sir yn dilyn ystyriaeth am ADY a darpariaeth gan yr Awdurdod Lleol a Chynllun Datblygu Unigol dilynol sy'n cael ei baratoi a'i gynnal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn unol â Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae modd rhoi lle ar ôl asesiad lle bo hynny'n briodol a phan mae'r Panel Cymedroli ADY yn penderfynu hynny.

Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad oes modd bodloni anghenion o fewn y sir, efallai y bydd lle mewn ysgol y tu allan i'r sir yn cael ei ystyried, fel arfer ar ôl trafod ariannu ar y cyd â Gwasanaethau Plant a'r Bwrdd Iechyd, (Panel Amlasiantaeth Strategol (PAS)).

DRAFT

1.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

1.4.1 Plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol

Nid yw gweithdrefnau derbyn yn gyffredinol yn berthnasol i blant sydd â Datganiadau o AAA/Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) gan fod angen i ysgol a gynhelir sy'n cael ei henwi mewn Datganiad/CDU dderbyn y plentyn hyd yn oes os bydd yn mynd dros nifer y derbyniadau.

1.4.2 Plant sydd ag ADY ond heb Ddatganiad/CDU

Rhaid i awdurdodau derbyn beidio gwrthod derbyn plentyn oherwydd eu bod yn ystyried nad ydynt yn gallu darparu ar gyfer eu ADY. Rhaid iddynt beidio gwrthod plentyn oherwydd nad oes ganddo fo neu hi ddatganiad o AAA/CDU neu ei fod/bod yn cael asesiad ar hyn o bryd.

1.4.3 Plant gydag anableddau

O dan Ddeddf Gwahaniaethu yn Erbyn yr Anabl 1995 a Deddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar awdurdodau i beidio gwahaniaethu yn erbyn plant anabl a darpar ddisgyblion. Mae'r ddyletswydd yn rhagddyfalu ac mae'n rhaid i ysgolion wneud pob addasiad rhesymol i ddisgyblion gydag anabledd gan gynnwys hyrwyddo mynediad i'r adeilad a'r cwricwlwm.

1.4.4 Plant gydag ymddygiad heriol

Ni ddylai awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad yn rhywle arall, heblaw pan waharddwyd plentyn ddwywaith.

1.4.5 Dysgwyr a waharddwyd ddwywaith yn barhaol

Nid oes angen i awdurdodau derbyn gydymffurfio â dymuniad rheini os yw'r plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a bod y gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd o fewn y ddwy flynedd flaenorol (nid yw hyn yn berthnasol i ddisgybl â Datganiad o AAA/Cynllun Datblygu Unigol (CDU), yn 'Derbyn Gofal' neu wedi 'Derbyn Gofal' yn flaenorol).

1.4.6 Plant anodd eu lleoli

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn sicrhau fod y plant hyn yn cael lle mewn ysgol addas cyn gyflymed ag sy'n bosib. Gallai hyn o bosibl gynnwys ysgolion sydd eisoes yn llawn. Mae protocol yr Awdurdod ynglŷn â phlant sy'n cyrraedd y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn berthnasol dan yr amgylchiadau hyn.

DRAFT

1.5 Polisi a Threfn Derbyniadau i Ysgolion pan fo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod derbyn

1.5.1 Cyfrifoldebau am dderbyniadau

a) Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr Awdurdod Derbyn yn gyfrifol am benderfynu trefniadau derbyn i bob ysgol gynradd gymuned, uwchradd ac arbennig, ac ysgolion rheoledig gwirfoddol. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymgynghori'n flynyddol gyda chyrff llywodraethol ysgolion mewn perthynas â derbyniadau.

b) Mae Cyrff Llywodraethol Ysgolion Sylfaenol a Chymorthedig Gwirfoddol yn gyfrifol am benderfynu trefniadau derbyn i bob ysgol o'r fath. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymgynghori a chydweithio â chyrff llywodraethol ac Awdurdodau Addysg Esgobaethol ynglŷn â derbyniadau.

c) Bydd trefniadau derbyn cydlynedig yn cael eu hystyried gan y Fforwm Derbyniadau Lleol - ac mae ei drefniadau derbyn yn cynnwys holl Awdurdodau Derbyn y Sir.

1.5.2 Hanfodion y Polisi

a) Mae'r term 'rhiant/rhieni' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at riant/rhieni corfforaethol, rhiant/ rhieni gwarcheidwad/ gwarcheidwaid a 'gofalwr/ gofalwyr'.

b) Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion statudol ac yn cydnabod yn llawn ddewis rhieni yng nghyd-destun ei ddyletswyddau i sicrhau darparu addysg effeithiol a defnydd effeithiol o adnoddau addysgol. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ehangu niferoedd derbyn ysgol i gyfarfod gofynion nad ydynt yn cydymffurfio â meini prawf derbyniadau (gweler 1.7). Os ystyrir bod angen ehangu ysgol yn sylweddol, caiff y cynigion priodol eu cyhoeddi a dilynir y drefn statudol.

c) Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn disgyblion o'r oedran priodol [h.y. y grŵp oedran pan fydd disgybl fel arfer yn cael ei dderbyn i ysgol a phan fo'r plentyn o'r un oed ag amrediad oed y grŵp blwyddyn] hyd at rif derbyn pob ysgol heblaw rhai achosion, gweler 1.7 isod.

ch) Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys darpariaeth arbennig yn ymwneud â derbyn plant i ddosbarthiadau babanod a chynradd. Mae'r ddarpariaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau derbyn i gyfyngu maint dosbarthiadau i 30 o blant mewn ysgolion babanod a chynradd. Mae cyfyngiadau'n cael eu rhoi ar rymoedd Paneli Apelio Annibynnol i ganiatáu apeliadau yn erbyn gwrthod derbyn plentyn i ysgol am resymau maint dosbarth.

d) Penderfynir Rhif Derbyn pob ysgol yn unol â'r gofynion statudol priodol.

e) Bydd yr Awdurdod yn gweithredu polisi 'dalgylch', ble bydd darparu lle, staff adnoddau eraill a chludiant ysgol, yn canolbwyntio ar yr ardal ble

DRAFT

mae'r disgybl yn byw. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig a gellir gweld mapiau swyddogol yn dangos ffiniau 'dalgylchoedd' drwy gysylltu â derbyniadau@conwy.gov.uk, 01492 575 031 neu mewn ysgolion unigol. Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol os bydd mwy o geisiadau na sydd o leoedd mewn ysgol.

Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

1.6 Trefn Derbyn

1.6.1 Addysg Gynnar/Feithrin (Cyfnod Sylfaen)

D.S.: Nid yw derbyn i leoliad addysg gynnar (cyn ysgol) a all fod ar safle ysgol yn gwarantu y derbynnir y plentyn i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol honno gan fod hyn yn gylch derbyn ar wahân.

Mae'r "Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir" yn dechrau yn y tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed. Mae'r cwricwlwm hwn yn llywio'r ddarpariaeth addysg gynnar o ansawdd uchel yng Nghonwy ac fe'i datblygwyd i gefnogi ein gwaith gyda phlant ar gychwyn cyntaf eu taith ddysgu Cwricwlwm i Gymru. Mae'r "Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir ond nas cynhelir" yn anelu at greu tueddiadau cadarnhaol mewn plant tuag at ddysgu yn ogystal â'u cefnogi i ddechrau gwireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu fel:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Polisi'r Awdurdod Derbyn mewn perthynas ag addysg feithrin (a ddiffinnir fel darpariaeth ar gyfer plant tair blwydd oed) yw:

a) **Addysg Gynnar (cyn ysgol)**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Awdurdodau Lleol gynnig lleoedd rhan amser i blant o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r Awdurdod yn ariannu lleoedd o fewn y sector gwirfoddol a phreifat ar ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed, tan ddiwedd y flwyddyn academaidd honno. Bydd plant y mae eu pen-blwydd yn 3 oed o fewn Tymor yr Haf yn mynd i ddarpariaeth feithrin ysgol ym mis Medi ar gyfer eu lle 3 oed a ariennir.

Mae'n rhaid i leoliadau sy'n darparu addysg gynnar yn y sector gwirfoddol/nas cynhelir gofrestru gyda Thîm Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac AGC.

DRAFT

Mae darpariaeth yn seiliedig ar 5 x sesiwn 2 awr yr wythnos i bob plentyn neu 4 sesiwn 2.5 awr bob wythnos i bob plentyn.

Am wybodaeth ar ddarpariaeth addysg gynnar mewn lleoliadau a gymeradwywyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cysylltwch â Tîm Addysg Gynnar Conwy ar 01492 577850 neu drwy ebost Plant.Children@conwy.gov.uk.

b) **Addysg Feithrin**

Nid yw derbyn i ddosbarth neu uned feithrin mewn ysgol fabanod neu gynradd benodol yn gwarantu y derbynnir y plentyn i'r ysgol honno ar gyfer addysg amser llawn. Bydd angen gwneud cais pellach cyn derbyn i'r dosbarth derbyn (addysg llawn amser).

(i) Darperir addysg feithrin ar sail 0.5 yn holl ysgolion yr Awdurdod sy'n darparu ar gyfer ystod oedran 3-7 a 3-11.

(ii) Mae darpariaeth yn seiliedig ar 5 x sesiwn 2 awr yr wythnos i bob plentyn.

(iii) Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i le yn y meithrin ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Medi) os yw'r plentyn wedi cael ei ben-blwydd/phen-blwydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst. Efallai y gofynnir i rieni ddarparu dogfennau swyddogol yn dangos dyddiad geni eu plentyn. Yn ôl y gyfraith nid oes angen i blentyn gychwyn yn yr ysgol hyd gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed.

(iv) Gellir gwneud ceisiadau derbyn dechreuol i bennaeth yr ysgol neu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i fynegi eu dewis ar gyfer lleoliad feithrin.

Gall rhieni fynegi dewis am unrhyw ysgol, fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn ôl y meini prawf a restrwyd yn 1.7.

(v) Mae ceisiadau ar gyfer derbyn i'r ysgol feithrin yn agored o dymor yr hydref cyn y flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn gymwys i gychwyn yn yr ysgol feithrin.

(vi) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7 isod. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.

(vii) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol a

DRAFT

ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni'n cael eu hysbysu mewn ysgrifen ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a byddant yn cael cynnig lle i'w plentyn yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael.

(viii) Nid oes gan rieni hawl i apelio o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 os byddant yn aflwyddiannus gyda chael lle meithrin.

1.6.2 **Derbyn i Ysgolion Cynradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy pan fo Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Derbyn**

a) Darperir lle amser llawn i blant o ddechrau'r flwyddyn ysgol pan fydd y plentyn yn bedair oed ar 31 Awst neu cyn hynny. Yn ôl y gyfraith nid oes angen i blentyn gychwyn yn yr ysgol hyd gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gellir oedi derbyn hyd y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Fodd bynnag, ni fydd rhieni yn gallu oedi mynediad y tu hwnt i gychwyn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd cais ar ei chyfer. Rhaid parhau i gyflwyno ffurflenni cais erbyn y dyddiad a nodwyd gan yr ALl hyd yn oed os yw mynediad wedi'i oedi.

b) Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i nodi eu dewis o ysgol gynradd neu iau ar gyfer y plentyn. Gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, ond bydd ysgolion yn blaenoriaethu ceisiadau trwy ddilyn y meini prawf a nodir yn Adran 1.7. Dylid nodi fodd bynnag, y bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu pan fo gofynion Polisi Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu bodloni.

c) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.

ch) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i blentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni yn cael eu hysbysu mewn ysgrifen ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a byddant yn cael eu darparu gyda manylion yr ysgol briodol agosaf sydd â lleoedd ar gael. Hefyd, bydd rhieni'n cael gwybod am eu hawl i apelio at Banel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod derbyn i'r ysgol a ddewiswyd.

d) Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael.

dd) Felly gall yr ymgeisydd benderfynu:

i. Derbyn y lle a gynigir yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael;
ii. Apelio;
iii. Apelio a derbyn y lle a gynigir yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd

DRAFT

ar gael;

iv. Gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis ac apelio; neu

v. gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis yn unig.

Os yw'r ymgeisydd yn dymuno apelio at y Panel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod cais, bydd yr ymgeisydd yn cael o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod ysgol) o'r dyddiad hysbysu y bu'r cais yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno apêl ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel Apêl Annibynnol

e) Rhaid i'r apêl [y dylid ei hanfon at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)] gael ei hysgrifennu ar bapur gan nodi'r rhesymau am yr apêl. Mewn apêl, bydd yr Awdurdod yn cychwyn proses apêl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Bydd y rhiant, gyda ffrind, os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos ger bron Panel Apêl Annibynnol. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.

(f) Dylai apeliadau i ysgolion cymorthedig gwirfoddol a sylfaen gael eu gwneud at Gadeirydd y Llywodraethwyr d/o yr ysgol berthnasol.

Trosglwyddo o Ysgolion Babanod i Ysgolion Iau

Pan fo ysgolion babanod ac iau ar wahân ond 'wedi eu paru', rhaid i drefniadau a gyhoeddwyd ei gwneud yn glir y bydd angen i rieni plant mewn ysgol babanod wneud cais am le mewn ysgol iau ac nad yw mynychu ysgol babanod yn gwarantu lle mewn ysgol iau.

1.6.3 **Derbyn i Ysgol Uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Conwy gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Derbyniadau**

a) Fel arfer caiff disgyblion eu trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed.

b) Bydd Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) yn gwahodd rhieni i nodi eu dewis o ysgol uwchradd. Gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, ond bydd ysgolion yn blaenoriaethu ceisiadau trwy ddilyn y meini prawf a nodir yn Adran 1.7. Dylid nodi fodd bynnag, y bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu pan fo gofynion Polisi Cludiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu bodloni.

c) Bydd unrhyw ddewis a fynegwyd gan riant yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yng ngoleuni'r meini prawf a nodwyd yn 1.7. Bydd y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol a ddymunir os bydd yr Awdurdod yn gallu cytuno â dymuniad y rhieni.

ch) Pe bai'r Awdurdod yn methu cynnig lle i'r plentyn yn yr ysgol a ddewiswyd gan y rhieni, bydd y rhieni yn cael eu hysbysu ar bapur ynghylch pam y bu eu cais yn aflwyddiannus. Bydd angen i rieni wneud cais am le mewn ysgol arall. Hefyd, bydd rhieni yn cael gwybod am eu hawl i apelio at Banel Apêl Annibynnol yn erbyn

DRAFT

penderfyniad yr Awdurdod i wrthod y cais.

d) Felly gall yr ymgeisydd benderfynu:

i. Apelio;
ii. Gwneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis a symud ymlaen i apelio; neu
iii. Wneud cais newydd i ysgol arall o'u dewis yn unig

Os yw'r ymgeisydd yn dymuno apelio at y Panel Apêl Annibynnol yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i wrthod cais, bydd yr ymgeisydd yn cael o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod ysgol) o'r dyddiad hysbysu y bu eu cais yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno apêl ysgrifenedig i'w ystyried gan y Panel Apêl Annibynnol

dd) Rhaid i'r apêl [y dylid ei hanfon at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)] gael ei hysgrifennu ar bapur gan nodi'r rhesymau am yr apêl. Mewn apêl, bydd yr Awdurdod yn cychwyn proses apêl Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998. Bydd y rhiant, gyda ffrind, os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos ger bron Panel Apêl Annibynnol. Bydd penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol.

1.6.4 **Dyddiadau perthnasol**

a) Bydd y drefn derbyn flynyddol ar gyfer yr oedran perthnasol yn cynnwys y camau canlynol:

Derbyn i:	**Ffurflenni ar gael i rieni:**	**Dyddiad cau dychwelyd ffurflenni:**	**Dyddiad hysbysu llwyddiant y cais:**
Uwchradd	02/09/2024	04/11/2024	03/03/2025
Cynradd	23/09/2024	18/11/2024	16/04/2025
Derbyn	23/09/2024	18/11/2024	16/04/2025
Meithrin	23/09/2024	17/02/2025	06/05/2025

Ceisiadau y tu allan i'r cylch derbyn arferol

Caiff rhieni sy'n mynegi dymuniad ar wahân i oedran arferol y derbyniadau (e.e. meithrin, derbyn, iau, uwchradd) yr un cyfle â'r rhai a amlinellir yn y Meini Prawf gormod o geisiadau (Gweler 1.7 isod.)

Pan fo cais y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn cael ei wneud beth amser cyn y dyddiad cychwyn y gofynnwyd amdano (ee os na fydd y disgybl yn symud i mewn i'r ardal am sawl mis) bydd yr Awdurdod yn ystyried amgylchiadau'r achos unigol yn ofalus, a'r cyfnod a fyddai'n rhesymol i gadw lle ar agor i'r disgybl. Ni fyddai yn arferol yn cael ei ystyried yn briodol i gadw lle ar agor am fwy na thymor ysgol.

DRAFT

1.6.5 Sut i wneud cais am le mewn ysgol

(a) Gellir cwblhau ceisiadau derbyn –

- Ar-lein yn www.conwy.gov.uk/derbyniadau
- Gellir hefyd cael ffurflenni cais papur o unrhyw ysgol yng Nghonwy neu gan yr adran Derbyniadau Ysgol, Gwasanaethau Addysg Conwy, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN. Gellir hefyd ffonio 01492 575 031

Mae'n bwysig bod rhieni'n dychwelyd eu ffurflenni cais erbyn y dyddiad cau cywir. Os bydd ffurflen yn cael ei hanfon trwy'r post, argymhellir cael prawf postio gan y Swyddfa Bost.

1.6.6 Ceisiadau hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a geir erbyn y dyddiad cau, **oni bai** fod yr Awdurdod yn ystyried fod rhesymau da dros gyflwyno'r cais yn hwyr. **Rhaid** cynnwys y rhesymau hyn ar y ffurflen gais.

Os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio, bydd unrhyw geisiadau hwyr a geir heb resymau da yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a geir erbyn y dyddiad cau, a byddant yn cael eu gosod yn ôl y meini prawf derbyniadau. Bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr gyda'r safleoedd uchaf hyd at ddiwedd y cyfnod dyrannu.

Rhaid i blant gyda datganiadau o AAA sy'n enwi ysgol benodol gael eu derbyn waeth pryd y cafwyd eu cais.

Bydd yn rhaid derbyn plant sydd a Datganiad o AAA/Cynllun Datblygu Unigol (CDU) sy'n enwi ysgol benodol, pa bryd bynnag y derbyniwyd eu cais.

Os na fydd yn bosib bodloni dewis cyntaf y rhiant oherwydd gordanysgrifio, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod.

1.7 Meini Prawf Derbyniadau (Meini Prawf Gormod o Geisiadau)

1.7.1 Felly, mae meini prawf derbyn i ysgolion yr Awdurdod yn amodol ar:

i) y ddyletswydd i gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn wedi'i gyrraedd.

ii) y ddyletswydd i sicrhau bod diddordebau Plant dan Ofal a Phlant Dan Ofal yn flaenorol yn cael eu hamddiffyn ac yn cael blaenoriaeth dan feini prawf gordanysgrifio pob ysgol;

iii) y ddyletswydd i sicrhau bod disgybl sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei dderbyn i'r ysgol a enwir yn y Datganiad/CDU;

DRAFT

iv) y ddyletswydd i sicrhau bod disgybl gyda datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei dderbyn i'r ysgol a enwyd yn y datganiad;

v) yr oblygiad i sicrhau bod disgyblion gyda gydag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol yn cael eu derbyn i ysgol neilltuol;

vi) yr oblygiad i gydymffurfio â chyfyngu maint dosbarthiadau babanod;

vii) yr oblygiad i sicrhau darparu addysg effeithlon a defnydd effeithlon o adnoddau; ac unrhyw gyfyngiad all godi mewn perthynas ag ysgol arbennig yn deillio o ddefnyddio rhif derbyn, sef y nifer o blant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol.

viii) unrhyw gyfyngiad all godi mewn perthynas â gordanysgrifio. Bydd blaenoriaeth o fewn pob categori yn cael ei benderfynu trwy bellter cerdded diogel o'r ysgol. Bydd yr Awdurdod Derbyn yn defnyddio meddalwedd yr Awdurdod Lleol a fydd yn cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd wrth i ddatblygiadau technolegol gael eu gwneud i gyfrifo'r pellter mewn milltiroedd o'r cartref i'r ysgol. Mae'r llwybr gerdded fyrraf wedi ei mesur o bwynt mynediad ffordd gyhoeddus gydnabyddedig *agosaf* i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd hyd giât prif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn plentyn i ysgol ar gyfer addysg mewn dosbarth babanod i gydymffurfio â dymuniad a fynegwyd gan riant pan fyddai derbyn y plentyn yn peryglu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau oherwydd 'camau cynhwyso', camau fyddai eu hangen i sicrhau bod y cyfyngiad dosbarthiadau yn cael ei gyfarfod (hynny yw, ni ddylai fod yna fwy na 30 disgybl mewn dosbarth).

1.7.2 Bydd meini prawf gordanysgrifio yn y drefn ganlynol yn cael ei defnyddio pan fo mwy o rieni wedi mynegi dymuniad am ysgol na sydd o le mewn blwyddyn arbennig:

Dosbarth A	'Plant dan Ofal' a 'Phlant Dan Ofal yn Flaenorol'.
Dosbarth B	Plant sydd ag anghenion meddygol neu addysgol eithriadol sydd ym marn yr Awdurdod Derbyn yn cyfiawnhau derbyn i ysgol arbennig (gweler 1.7.3.2).
Dosbarth C	Disgyblion sy'n byw yn 'nalgylch' yr ysgol.
Dosbarth D	Disgyblion gyda brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol neu sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner.
Dosbarth E	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion babanod/iau/cynradd partner.
Dosbarth F	Rhai sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sydd ddim yn deilwng ar gyfer dim o'r dosbarthiadau uchod.

DRAFT

1.7.3 Manylion pellach ynglŷn â meini prawf derbyniadau isod:

1.7.3.1 **Plant dan Ofal**

Mae dyletswydd ar Awdurdodau Derbyn i dderbyn 'Plant Dan Ofal' neu 'Blant oedd Dan Ofal yn Flaenorol' hyd yn oed os byddai hyn yn arwain at fynd dros y rhif derbyn yn unrhyw un o ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

1.7.3.2 **Anghenion Meddygol**

Gall Awdurdodau Lleol roi blaenoriaeth uwch i blant neu deuluoedd sydd ag angen meddygol (er enghraifft pan fo gan un neu'r ddau riant neu'r plentyn anabledd a allai wneud teithio i ysgol sy'n bellach i ffwrdd yn anodd).

Er mwyn i geisiadau gael eu hystyried o dan y meini prawf hyn, byddai'r Awdurdodau Derbyn angen tystiolaeth ategol annibynnol sy'n nodi'r rhesymau penodol pam mai'r ysgol dan sylw yw'r ysgol fwyaf addas, a'r anawsterau a achosir os byddai rhaid i'r plentyn fynychu ysgol arall.

Byddai'r dystiolaeth ategol annibynnol a ystyrir yn briodol yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) y canlynol:

(a) Llythyr/adroddiad gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig) megis meddyg, pediatrydd cymunedol, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, seicolegydd, seicolegydd addysg, seiciatrydd neu ymgynghorydd arbenigol) a ddylai fod yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain o gyflwr ac amgylchiadau'r rhiant / plentyn;

(b) Llythyr/adroddiad gan weithiwr proffesiynol gwaith cymdeithasol cofrestredig a ddylai fod yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain o gyflwr ac amgylchiadau'r rhiant / plentyn

D.S. Ni fydd Awdurdodau Derbyn yn rhoi blaenoriaeth uwch i blant o dan y meini prawf hyn os na chyflwynwyd y dystiolaeth gefnogi.

1.7.3.3 **Dalgylch**

Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig a gellir gwneud cais am fapiau swyddogol sy'n dangos y ffiniau drwy gysylltu â derbyniadau@conwy.gov.uk, 01492 575031 neu mewn ysgolion unigol. Os bydd mwy o ddisgyblion yn gwneud cais i ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw o fewn y 'dalgylch'.

Nid yw'n bosibl bob amser gwarantu lle i ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael**.**

DRAFT

1.7.3.4 Brodyr a Chwiorydd

Mae brawd neu chwaer yn cael eu dehongli fel brawd/chwaer lawn, hanner neu lys frawd/chwaer (boed trwy briodas neu'n cydfyw, wedi'u mabwysiadu neu feithrin

Er mwyn i frawd/chwaer gael ei ystyried:

- Rhaid iddo/iddi fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r ymgeisydd pan fo'r cais yn cael ei wneud.
- Rhaid i'r brawd/chwaer hynaf fod o oed ysgol statudol ac yn parhau ar gofrestr yr ysgol y gofynnir amdani ble mae gan y plentyn iau hawl i'w mynychu.

Wrth ystyried brodyr a chwiorydd rhoddir y flaenoriaeth gyntaf i aml enedigaethau (e.e. efeilliaid neu dripled).

Os bydd nifer y ceisiadau sy'n weddill yn parhau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael ar ôl dilyn y meini prawf gordanysgrifio, bydd y llefydd sydd ar ôl yn cael eu dyrannu yn ôl y "meini prawf – Pellter o'r Ysgol" isod.

1.7.4 Meini prawf pellter: Pellter rhwng y cartref a'r ysgol

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn defnyddio meddalwedd dewisol yr Awdurdod Lleol, a all o bryd i'w gilydd, gael ei adolygu, wrth i ddatblygiadau technolegol gael eu gwneud, i gyfrifo pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r llwybr gerdded fyrraf wedi ei mesur o bwynt mynediad ffordd gyhoeddus gydnabyddedig agosaf i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd hyd at giât prif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol.

Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol hyd y bydd y rhif derbyn wedi'i gyrraedd.

Bydd yr Awdurdod Derbyn ond yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl, ac nid er enghraifft cyfeiriad ffrind neu berthynas. Gofynnir i rieni ddarparu cadarnhad o'u cyfeiriad cartref pan ddilynir y meini prawf pellter.

Cynghorir rhieni y gellir tynnu lle ysgol yn ôl os yw'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol, a gallai hyn olygu na fyddai lle ar gael yn eu hysgol agosaf nesaf.

Pan dynnir lle yn ôl, gellir ail gyflwyno'r cais ac os y'i gwrthodir, mae gan y rhiant hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Os yw cyfeiriad cartref eich plentyn yn newid cyn diwedd y cyfnod dyrannu, rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Derbyn.

Os na all dau riant gytuno ar yr ysgol/ysgolion o'u dewis, rhaid iddynt geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, a phe bai angen, gorchymyn llys priodol, cyn cyflwyno eu ffurflen gais i'r Awdurdod Derbyn. Bydd yr Awdurdod Derbyn ond yn derbyn un cais ar gyfer bob plentyn.

DRAFT

Os ar ôl dilyn y meini prawf gordanysgrifio mae'r Awdurdod yn parhau i fethu dyrannu lle i'r plentyn yn yr ysgol y mae'r rhiant wedi mynegi dymuniad, bydd yr Awdurdod yn cynnig lle i'r plentyn yn yr ysgol addas agosaf sydd â lleoedd ar gael.

1.8 Plant pobl sydd yn y Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron (gan gynnwys Diplomyddion)

Bydd teuluoedd pobl sydd yn Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron yn cael eu symud o gwmpas y DU ac o dramor yn aml. Bydd lleoedd ysgol yn cael eu dyrannu i blant a'u teuluoedd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol sydd ar y gorwel os ceir llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn nodi'r dyddiad dychwelyd.

1.9 Plant Sipsiwn a Theithwyr

Bydd plant o'r gymuned deithio sipsiwn neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru: 003/2008 'Symud Ymlaen - Addysg Teithwyr Sipsiwn'.

1.10 Plant o dramor

Bydd plant o dramor yn cael eu trin yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Dylai rhieni a gofalwyr wirio bod ganddynt hawl i breswylio neu fod amodau eu statws mewnfudo'n caniatáu fel arall iddynt fynd i ysgol a gynhelir.

1.11 Dymuniad Iaith

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod rhieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael cyfle i fynegi eu dewis. Mae anghenraid i bob ysgol gyflwyno'r Gymraeg o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol oni bai i'r ysgol ofyn am eithriad. Nid oes yr un ysgol yng Nghonwy wedi gofyn am eithriad.

1.12 Dymuniad Enwadol

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sicrhau bod rhieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol enwadol yn cael cyfle i fynegi eu dewis o ysgol o'r fath. Mae derbyniadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn amodol i'r meini prawf a sefydlwyd gan gyrff llywodraethol yr ysgolion hyn. Hefyd, fel y nodir yn 1.3.3 uchod, mae meini prawf ychwanegol yn weithredol yn nhermau derbyn i ysgolion cymorthedig. Mae'r rhain wedi eu nodi yn yr Atodiad.

DRAFT

1.13 Rhestrau aros

Yn ystod y cylch derbyn arferol

Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, pan fo ceisiadau ar gyfer ysgol benodol wedi cyrraedd y rhif derbyn, bydd unrhyw ymgeisydd aflwyddiannus yn aros ar restr aros gordanysgrifio hyd 30 Medi 2023. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros yn weithredol, a cyn i unrhyw apeliadau gael eu clywed, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar yr adeg hynny, yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio.

Ni fydd rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr. Fodd bynnag, nid yw rhoi enw'r plentyn ar y rhestr aros yn gwarantu lle yn yr ysgol yr ymgeisiwyd amdani ac nid yw'n effeithio ar hawl y rhieni i apelio.

Tu allan i'r cylch derbyn arferol

Pan wneir cais i ysgol sydd wedi ei gordanysgrifio y tu allan i'r cylch derbyn arferol, bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cyfle i apelio. Os yn aflwyddiannus, bydd angen i rieni wneud cais i ysgol arall. Gall yr Awdurdod ddarparu cyngor.

1.14 Addysg wedi oed ysgol statudol – derbyn i'r chweched dosbarth

Rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol berthnasol. Fodd bynnag, bydd ceisiadau gan ddisgyblion o ysgolion eraill yn cael eu hystyried hefyd, gan ddibynnu os bydd lle ar gael. Mae hawl gan rieni i apelio os gwrthodir lle i'w plentyn.

i) O dan Adran 8(3) Deddf Addysg 1996, gosodwyd oed gadael ysgol newydd. Y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fo'r disgybl yn cyrraedd 16 oed yw hwn.

ii) Hyd y dyddiad hwnnw:

- Rhaid i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod eu plant yn cymryd rhan mewn addysg yn yr ysgol neu arall;
- Rhaid i gynghorau lleol sicrhau darparu addysg briodol;
- Ni all cyflogwyr gyflogi plant yn amser llawn;
- Ni chaiff darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant amser llawn a noddir gan y Llywodraeth.

1.15 Derbyn Disgyblion o du allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bydd plant sy'n byw y tu allan i Gonwy yn cael eu derbyn yn amodol i'r un meini prawf a osodwyd ar gyfer disgyblion sy'n byw yng Nghonwy (gweler 1.7.3). Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig at Bennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) a Phennaeth yr ysgol.

DRAFT

1.16 Derbyniadau i Ysgolion nas cynhelir gan yr ALl

(a) Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drefniadau arbennig gydag Awdurdodau Derbyniadau Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwynedd i ystyried ysgol mewn sir arall a ddewiswyd gan rieni.

(b) Gall rhieni sy'n dymuno ysgol a gynhelir gan awdurdod derbyn heblaw CBS Conwy wneud hynny ar y ffurflen dymuniad a gyhoeddwyd gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd Gwasanaethau Addysg CBS Conwy yn cysylltu â'r ysgolion hynny'n uniongyrchol.

(c) Mewn achosion o'r fath ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am dalu costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol oni bai fod trefniadau arbennig. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio trefniadau arbennig gydag awdurdodau cyfagos ar gyfer disgyblion ble mae eu hysgol briodol agosaf y tu allan i ffiniau'r sir.

1.17 Newid Ysgol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy ar adegau gwahanol i'r cyfnod arferol

a) Dylid cysylltu â Phennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg) cyn gynted ag y bo modd mewn achosion arbennig, ble'r ystyrir bod derbyn cynnar neu hwyr i addysg uwchradd yn ddoeth gan y rhieni a'r ysgol gynradd.

a) Rhaid i rieni sy'n dymuno trosglwyddo o un ysgol a gynhelir i un arall ar amser gwahanol i'r amser trosglwyddo arferol drafod y mater yn gyntaf gyda dau bennaeth yr ysgolion perthnasol. Fe all y penaethiaid ymgynghori gyda swyddogion Gwasanaethau Addysg CBS Conwy. Bydd yn rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethol sy'n derbyn y disgybl drefnu i dderbyn y disgybl yn unol â pholisi derbyniadau'r Awdurdod Derbyn.

c) Fel arfer, ni all newidiadau gael eu cyflawni ond ar ddechrau tymor ysgol, ond fe all newidiadau sy'n codi o amgylchiadau arbennig ddod i rym yn ystod y tymor ysgol. Dan amgylchiadau arferol bydd y cais yn cael ei drin o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag yw'r cynharaf. Cynghorir rhieni yn gryf, i beidio â throsglwyddo disgyblion yn ystod blwyddyn ysgol rhag amharu ar gwrs addysg eu plant.

1.18 Trosglwyddo wedi'i Reoli

Mewn amgylchiadau eithriadol pan fo lle disgybl mewn ysgol arbennig o dan fygythiad gall Gwasanaethau Addysg CBSC, gyda chaniatâd y rhieni drafod symud i ysgol arall.

DRAFT